COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU CORFFORAETHOL A GYNHALIWYD YN O BELL - TRWY DIMAU MICROSOFT DYDD LLUN, 5 GORFFENNAF 2021, AM 09:30

Presennol

Y Cynghorydd KL Rowlands – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | J Gebbie | RL Penhale-Thomas | JC Spanswick |
| T Thomas | AJ Williams | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

DG Howells, M Jones, RMI Shaw a/ac A Williams

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Meryl Lawrence | Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu |
| Claire Marchant | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Gwasanaethau Cymdeithasol a Lles |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Tracy Watson | Swyddog Cymorth Craffu |

Gwahoddedigion:

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Nicole Burnett | Aelod Cabinet - Gwasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar |
| Cynghorydd Huw David | Arweinydd |
| Cynghorydd Dhanisha Patel | Aelod Cabinet - Lles a Chenedlaethau Dyfodol |
| Cynghorydd Charles Smith | Aelod Cabinet - Addysg ac Adfywio |
| Cynghorydd Hywel Williams | Dirprwy Arweinydd |
| Cynghorydd Richard Young | Aelod Cabinet – Cymunedau |

24. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Dim

25. CYMERADWYO COFNODION

PENDERFYNWYD: Bod Cofnodion cyfarfod Cyfunol yr holl Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu, dyddiedig 1 Chwefror a 14 Ebrill 2021 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir.

26. ALLDRO CYLLIDEB REFENIW 2020-21

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro na fyddai hi, fel y gofynnwyd, yn mynd drwy'r holl fanylion yn yr adroddiad gan fod y Cynghorwyr wedi cael y cyfle i glywed yr adroddiad o'r blaen, ond gwnaeth y sylw, i'w gofnodi, y byddai'r Aelodau'n gweld crynodeb o'r sefyllfa ariannol a thynnodd sylw at y naratif oedd yn dangos ei bod yn sefyllfa anhygoel o unigryw eleni. Fel yr eglurwyd o'r blaen yn y Cabinet ac yn y Cyngor, yr arian o gronfa galedi Llywodraeth Cymru (LlC) yn y lle cyntaf, yr arian o grantiau sylweddol a dderbyniwyd yn y chwarter olaf, o leiaf £9 miliwn yn nhermau grantiau untro oedd ar gyfer dibenion penodol, a'r cymhorthdal ar gasglu'r Dreth Gyngor oedd y rhesymau pam yr oedd y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn yn edrych mor wahanol i'r hyn a ddisgwylid a'r sefyllfa yr adroddwyd wrth COSC yn chwarter 3 oedd yn ddisgwyliedig.

Yr ail bwynt, a wnaed yn y Cabinet ac yn y Cyngor, oedd bod y sefyllfa'n gyffredinol yn dal yn eithaf anodd wrth symud ymlaen. Roedd yna bwysau anhygoel, nid oedd y wlad allan o'r pandemig eto ac roedd sefyllfa waelodol Cyllidebau Cyfarwyddiaethau gan mwyaf yn dal yn un o ddiffyg. Roedd sefyllfa'r ysgolion, yn neilltuol, yn cael ei chuddio gan bron i £9 miliwn o grantiau untro, tra mai'r hyn oedd wedi cael ei ragweld oedd y byddai'r rhan fwyaf o'r ysgolion mewn diffyg.

Roedd ansicrwydd ynghylch y pwysau yn y dyfodol ac, fel y byddai'r Aelodau wedi gweld yn y wasg, roedd nifer o Gyfarwyddwyr Cyllid wedi gorfod cyhoeddi Hysbysiadau Adran 114 lle roedd eu hawdurdodau lleol mewn perygl o fethdalu, mewn oddeutu 35 o Gynghorau. Gwelid stori gyda dau hanner, sef gwarged sylweddol unigryw ond y sefyllfa waelodol yn gallu bod yn eithaf peryglus.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor y canlynol:

Soniodd Aelod am gyfeiriad y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro at y grantiau a'r arian o'r gronfa galedi oedd wedi eu derbyn yn yr ychydig fisoedd diwethaf a'r rhagolwg yn Chwarter 3 COSC, oedd wedi bod yn sefyllfa hollol wahanol, a gofynnodd a oedd modd rhagweld y cyllidebau. Roedd yr alldro presennol yn cuddio'r sefyllfa wirioneddol, ond un o 22 awdurdod lleol oedd Pen-y-bont ar Ogwr yng Nghymru a faint o awdurdodau lleol yn Lloegr a'r Alban oedd yn yr un cwch.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ei bod hi'n teimlo nad oedd y darlun yn un gwirioneddol, fel yr oedd yn sefyll. Roedd yn ddarlun cywir o ran cadw cyfrifon a chofnodi'r symiau ac roedd yn rhoi sefyllfa, o ran y cronfeydd wrth gefn oedd wedi eu clustnodi a'r pwrpas yr oedd y rheiny ar eu cyfer, ond nid oedd yn rhoi'r darlun go iawn. Gallai dwy eitem yn unig wneud £2 filiwn o ddiffyg; roedd y rhan fwyaf o'r ysgolion yn agos i redeg i sefyllfa o ddiffyg ac roedd rhai ohonynt eisoes mewn diffyg. Roedd yn unigryw o ran amseriad, ond nid oedd yn unigryw ar draws Cymru. Roedd pob un o awdurdodau lleol Cymru mewn sefyllfa debyg o ran grantiau ac arian o'r gronfa galedi, ond nid oeddent i gyd yn yr un sefyllfa o ran eu mantolenni a chryfder eu cronfeydd wrth gefn. Roedd Archwilio Cymru wrthi'n cwblhau ail ddarn o waith ar gynaladwyedd ariannol, oedd yn dweud, er gwaethaf y sefyllfa o ddiffyg gwaelodol, bod gan y Cyngor lefel weddol gref o gronfeydd wrth gefn yn dal i fod, sef yr hyn oedd ar y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro ei eisiau wrth fynd i mewn i ddyfodol hynod o ansicr o ran y pwysau oedd yn eu hwynebu. Cafodd hi ei chalonogi gan hyn gan ei bod yn edrych yn gyson ar gynghorau eraill oedd yn wynebu sefyllfaoedd anodd iawn, yr oedd llawer ohonynt wedi ymgymryd â mentrau masnachol mawr a rhai ohonynt yn mynd i drafferthion.

Cyfeiriodd Aelod at y ddwy gyllideb neilltuol o gyfnewidiol, y cyfeirid atynt yn yr adroddiad, sef Gofal Cymdeithasol Oedolion a Chludiant o'r Cartref i'r Ysgol, a'r penderfyniad gan LlC i adolygu'r pellteroedd statudol ar gyfer Cludiant Dysgwyr, a phenderfyniad y Cabinet oedd yn cael ei ddal yn ôl tra'n disgwyl am ganlyniad yr adolygiad. Gofynnodd am sicrwydd bod y Swyddogion yn dal i weithio ar y polisi a gofynnodd a oedd modd i'r Aelodau gael diweddariad ynghylch yr hyn oedd yn digwydd fel, pan fyddai adolygiad LlC wedi ei gwblhau, y gellid cymryd camau i sicrhau bod y pwysau hyn yn cael eu lliniaru.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd sicrwydd, ar ôl delio â'r sefyllfa o orwario, fod Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn fater o bwys o fewn y Gyfarwyddiaeth a bod gwaith yn cael ei wneud arno'n barhaus. Roeddent yn disgwyl am ganlyniad adolygiad LlC, ond roeddent yn edrych ar waith caffael i sicrhau ei fod yn cael ei ddarparu mor effeithiol ac effeithlon ag yr oedd modd. Cytunodd y Cyfarwyddwr

Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd i roi diweddariad ar y gwaith hwn, oedd yn dal i fynd ymlaen.

Gofynnwyd am eglurder a oedd y 35 cyngor oedd wedi eu disgrifio fel yn agos i fethdalu, y cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro atynt, yn cynnwys unrhyw rai o 22 awdurdod lleol Cymru.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro na allai hi ddweud a oedd unrhyw rai o'r 22 yn eu plith, er ei bod wedi nodi bod Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful wedi cael llythyr cyhoeddus iawn am eu sefyllfa ariannol cyn Covid-19 a bod nifer o gynghorau yn brwydro gyda sefyllfa o ddiffyg gwaelodol oedd yn fwy na'r Cyngor hwn. Darn o waith ymchwil gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol oedd y 35 yr oedd hi wedi cyfeirio atynt. Nid oedd yr un darn o waith wedi cael ei wneud yng Nghymru, er bod darn o waith wrthi'n cael ei goladu, drwy Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a Grŵp Swyddogion Adran 151, ar bwysau a'r sefyllfa ac felly mae'n debyg y ceid peth gwybodaeth bellach. Drwy ei chysylltiadau hi ei hun, roedd rhai yn wynebu penderfyniadau eithaf anodd er nad oedd yr un o'r 22 awdurdod lleol wedi cyhoeddi hysbysiad adran 114 yng Nghymru.

Holodd Aelod a fyddai ymchwil y CLlLC yn cael ei rhannu gyda'r Aelodau.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro mai pwrpas CLlLC wrth gynnal arolwg oedd i CLlLC gael safbwynt ar gyfer lobïo LlC o ran y pwysau, fel ymateb cydgysylltiedig. Yr hyn y byddai'r Awdurdod Lleol yn ei dderbyn fyddai darn o waith gan Archwilio Cymru ar gynaladwyedd ariannol, oedd i fod i ddod ar ddiwedd yr haf ac y disgwylid iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, oedd hefyd yn cymryd diddordeb brwd yn y maes hwn.

Gofynnodd Aelod, gyda golwg ar 4.1.11 a'r £882 mil oedd heb gael eu caniatáu, a ellid rhoi enghreifftiau o'r hyn yr oedd hynny'n ei gynnwys. Dywedodd eto ei bod hi wedi codi mater Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol ers iddi gael ei hethol a phwysleisiodd yr angen am ddull un cyngor. Roedd y Cyngor yn dal i dalu am Gludiant o'r Cartref i'r Ysgol ar gyfer plant na fyddai ei angen pe darperid llwybrau diogel, a gofynnodd pam nad oedd hyn yn cael ei wneud, yn enwedig o ystyried y gorwariant, a dywedodd y dylid edrych ar hyn fel blaenoriaeth. Gofynnodd yr Aelod hefyd pam nad oedd y Cyngor yn derbyn plant ar fysiau bellach, er eu bod yn barod i dalu, oherwydd bod y Cyngor yn ystyried bod ganddynt lwybr cerdded diogel.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro mai ar gyfer TGCh yr oedd y rhan fwyaf o'r gwariant a gafodd ei wrthod. Roedd LlC yn ystyried bod gan TGCh fywyd hwy na'r pwysau presennol, oedd yn hollol resymol, ac felly 50% o'r gwariant hwnnw oedd y Cyngor wedi ei dderbyn yn ôl. Roedd rhai symiau bychain wedi cael eu gwrthod, oedd wedi cael eu hawlio ar weinyddu a phethau felly. At hynny, roedd y Cyngor wedi dewis ymestyn y cynnig parcio, a ystyrid yn benderfyniad lleol, ac felly gwrthodwyd yr incwm a gollwyd drwy hynny. Roedd yna gryn elfen o gysondeb; roedd yna banel oedd yn craffu ar gostau ac incwm a gollwyd, a theimlai'r Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro yn gyfforddus fod y symiau oedd heb eu caniatáu yn cyd-fynd ag eraill.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd na allai ef wneud sylwadau ar achosion unigol ond mai'r hyn y gallai ei ddweud oedd bod yna rai llwybrau diogel i'r ysgol oedd wedi cael eu nodi ac y byddent yn defnyddio'r rheiny lle roedd modd. Cytunai fod angen i'r Cyngor sicrhau bod y rhain yn cael sylw ac yn cael eu harchwilio ar draws yr holl Fwrdeistref Sirol. Un o heriau'r achosion o dalu oedd canlyniad Covid-19, gyda'r angen i reoli lleoedd ar fysiau ysgol yn ofalus iawn.

Awgrymodd, os oedd yna achosion unigol, y gellid anfon y rhain drwodd at y tîm iddynt gael edrych arnynt.

Cadarnhaodd yr Aelod ei bod hi wedi cyflwyno atgyfeiriad Aelod gyda golwg ar un achos. Tynnodd sylw at y broblem yn Coety a rhoddodd enghraifft o blant sy'n mynd ar fws yng Nghoety, ond a allai weld yr ysgol o'u tai, ond nad oedd yna lwybr diogel oherwydd diffyg llwybr troed. Roedd y Cyngor wedi bod yn talu am y bws ers i'r ysgol agor yn 2015 ac eto pe gellid creu un darn o lwybr troed, ni fyddai angen talu am y bws.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd modd i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol sicrhau bod hyn yn cael ei ystyried ymhellach, fel rhan o'r cyfathrebu parhaus ynghylch yr hyn yr oedd y Swyddogion yn ei wneud ar y polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd ei fod yn hapus i ystyried hyn.

| | |
|---|---|
| PENDERFYNWYD: | Bod y Pwyllgor yn nodi'r diweddariad ar berfformiad ariannol refeniw y Cyngor am y flwyddyn yn gorffen ar yr 31ain o Fawrth 2021. |

27. PERFFORMIAD YN ERBYN YR AMCANION LLES AR GYFER 2020-21

Cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid, Perfformiad a Newid Dros Dro yr adroddiad am y Perfformiad yn erbyn yr Amcanion Lles ar gyfer 2020-21. Nododd y byddai rhai Aelodau fel Cadeiryddion Craffu, wedi bod yn bresennol yn Asesiad Perfformiad Corfforaethol Chwarter 4 (APC) a rhoddodd drosolwg byr ar yr adroddiad oedd yn adlewyrchiad o'r flwyddyn yn erbyn Amcanion y Cynllun Corfforaethol, a ddiwygiwyd ar gyfer 2020-21 oherwydd y pandemig a'r effaith a gafodd hynny ar ddarparu gwasanaethau ac a gytunwyd yn y Cyngor ym mis Medi 2020. Roedd y cynllun diwygiedig yn diffinio'r 32 ymrwymiad corfforaethol i ddarparu yn erbyn y 3 amcan lles, ac yn gosod 46 dangosydd oedd yn canolbwyntio ar ddeilliannau i fesur y cynnydd am y flwyddyn. Dilynwyd y broses arferol gyda chynlluniau busnes y Gyfarwyddiaeth, gyda'r holl ddangosyddion oedd yn bwydo i mewn i'r cynllun corfforaethol hwnnw. Amlinellai Atodiadau A i D bob un o ddangosfyrddau diwedd blwyddyn y Gyfarwyddiaeth ac roedd gan COSC swyddogaeth allweddol mewn monitro a chraffu ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion lles hynny.

Dangosai'r data diwedd blwyddyn fod 12 o'r 32 ymrwymiad wedi eu cwblhau, gyda'r 20 arall wedi cyrraedd y rhan fwyaf o'u cerrig milltir, gan nodi bod y flwyddyn hon wedi bod yn unigryw, gyda rhai gwasanaethau na ellid eu darparu, rhai a ddarparwyd yn rhannol a bod angen dod â gwasanaethau newydd i mewn i gynorthwyo'r trigolion oedd yn byw drwy adegau anodd. O'r 440 o ddangosyddion a gasglwyd fel rhan o'r broses gynllunio gorfforaethol, roedd yna 89 gyda thargedau lle roedd y data wedi cael ei gyflwyno, oedd yn adlewyrchiad o'r flwyddyn anodd iawn. Ni allai'r Cyngor gasglu data ar gyfer yr holl ddangosyddion. O'r 89 o ddangosyddion gyda thargedau roedd dros hanner ar y targed, roedd 10 oddi ar y targed o lai na 10% a 32 wedi colli'r targed o fwy na 10%. Roedd yna 51 o ddangosyddion gyda naill ai dim targed neu ddim data diwedd blwyddyn ar gael, a rhoddwyd y manylion yn rhan A o'r atodiad. Roedd yna 79 o ddangosyddion oedd yn cynnwys data tueddiadau, ac o'r rhain roedd 46 yn dangos gwelliant neu'r perfformiad gorau, gyda 10 na ellid eu gwella ymhellach. Roedd un dangosydd yr un fath â'r llynedd, a 32 yn waeth na'r flwyddyn flaenorol.

Gofynnodd Aelodau o'r Pwyllgor y canlynol:

Dywedodd y Cadeirydd y gofynnwyd iddi fel Cadeirydd wneud datganiad agoriadol am y ffordd yr oedd yr adroddiad wedi cael ei osod allan, nad oedd peth o'r wybodaeth yn

eglur, bod dryswch gyda'r dangosyddion yn symud i fyny ac i lawr a pheth o'r data wedi cael ei osod allan.

Soniodd Aelod fod Aelodau wedi bod yn gofyn am grynodeb gweithredol oherwydd swm y data yn yr adroddiadau. Roedd hi'n cydnabod yr ymateb diweddar, oedd yn dweud na châi Templed yr Adroddiad Corfforaethol ei adolygu tan y flwyddyn nesaf, ond roedd aelodau wedi bod yn gofyn am grynodebau gweithredol ar gyfer pob adroddiad craffu ers dros 2 flynedd.

Dywedodd Aelod fod y Cadeiryddion wedi cymryd y mater hwn i fyny yng nghyfarfod yr APC gyda data oedd yn anodd ei ddeall mewn rhai achosion. Roedd ef yn ceisio gweld y peth o safbwynt person nad oedd ar y Cyngor ac yn edrych ar y data ac yn gofyn a oedd y Cyngor yn gwneud yn dda neu ddim oddi wrth y targedau, ac nid oedd yn glir iawn i bobl ddeall ar rai pynciau. Nododd fod yna rai oedd yn iawn ond bod rhai yn rhy gymhleth a bod angen bod yn fwy cryno.

Eglurodd Aelod y Cabinet – Cymunedau ei fod ef, fel aelod newydd o'r Cabinet yn ei APC cyntaf wedi codi'r un materion. Cododd y cwestiwn pe bai rhywun o blith y cyhoedd yn edrych ar y dogfennau hyn, a fyddai'n deall y ffordd y cawsant eu cyflwyno? Gallai fod yn ddryslyd oni bai bod pobl yn y gwaith o ddeall perfformiad, nad oedd yn wir am lawer. Daethpwyd â'r mater i sylw Swyddogion yn y cyfarfod APC diweddar a gobeithio y ceid gwelliant yn y rhain.

Awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnal cyfarfod rhwng y tri Chadeirydd i agor trafodaeth ar y ffordd i symleiddio'r adroddiadau ar gyfer craffu ar berfformiad, gan gynnwys yr hyn nad oedd yn ddealladwy, yr hyn oedd yn ddealladwy a sut y dylai'r wybodaeth gael ei symleiddio.

Gofynnodd Aelod a ddylai aelodau etholedig gael asesiadau DSE ar gyfer gweithio o gartref, tebyg i'r Staff.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol bod e-ddysgu ar y DSE ar gael i'r holl staff ac Aelodau. At hynny roedd y Cyngor yn gweithio gyda Phanel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) i weld a oedd yna broblemau yr oedd angen ymdrin â hwy, a oeddent yn dod o fewn paramedrau yr hyn y gellid ei ddarparu dan yr IRPW, ynteu a oedd y Cyngor yn ei wneud o dan rywbeth arall. Os oedd gan Aelodau unigol bryderon, gallent gysylltu â'r Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol ac, yn y cyfamser, gallai Aelodau gael mynediad at yr e-ddysgu ar gyfer ymgymryd ag asesiad y DSE.

Awgrymodd yr Aelod fod e-bost yn cael ei anfon i Aelodau'r Cyngor yn dweud wrthynt am yr e-ddysgu DSE y gallent gael mynediad ato.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol fod y wybodaeth wedi cael ei chynnwys mewn neges i bobl
Pen-y-bont ar Ogwr oedd wedi cael ei chylchredeg i'r holl Aelodau, ond cadarnhaodd y câi neges benodol ei hanfon at yr Aelodau.

Gofynnodd Aelod a oedd y staff, oedd wedi cwblhau'r DSE gyda'r bwriad o weithio o gartref am gyfnod cyfyngedig ar ddechrau'r pandemig, wedi cael eu hailasesu, oherwydd tra roedd efallai wedi bod yn briodol iddynt weithio o'r cartref ar fwrdd eu hystafell fwyta am 3 mis, efallai nad oedd ganddynt y gallu mwyach i weithio mewn ffordd fwy ystwyth.

Esboniodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol fod y DSE yn broses oedd yn mynd ymlaen yn barhaus, ac felly y dylai'r staff a'r aelodau

fod yn ei ddiweddaru fel yr oeddent yn ystyried yn briodol. Roedd yna arolygon staff ac roedd Rheolwyr hefyd yn cael eu cyfarwyddo, pryd bynnag y byddent yn cynnal sesiynau un i un gyda'u haelodau o staff, eu bod yn eu hatgoffa y dylent ail gwblhau y DSE pe bai yna newidiadau yn eu hamgylchiadau. Roedd y cynnig am yr offer yn gynnig oedd yn parhau ac felly, pryd bynnag y byddai arnynt angen yr offer hwnnw, gellid ei ddarparu.

Dywedodd yr Aelod ei bod wedi cael peth sicrwydd a'i bod yn deall bod angen i staff gymryd peth cyfrifoldeb am gwblhau eu DSE. Gofynnodd beth oedd yn digwydd i'r staff hynny nad oeddent yn cyrraedd y trothwy treth, ac felly eu bod yn gallu hawlio'r lwfans gweithio o gartref, a gofynnodd beth oedd yn cael ei wneud i gefnogi'r Aelodau hynny o'r staff.

Dywedodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol fod gwaith parhaus yn cael ei wneud gyda CLILC ynghylch y trothwy treth a lwfansau gweithio o'r cartref.

Awgrymwyd mewn perthynas â lles yr Aelodau etholedig, y byddai'n gymorth cynnal arolwg o sampl o galendrau, i weld beth oedd amlder a hyd cyfarfodydd i ystyried protocol ar y ffordd yr edrychid ar gyfarfodydd, bylchau rhwng cyfarfodydd ac egwyl gysur o fewn cyfarfodydd.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol mai gan y Cyngor y câi calendr y cyfarfodydd ei benderfynu ac mai hwn oedd y man cychwyn ar gyfer rhoi unrhyw gyfarfodydd eraill i mewn. Yn anffodus, roedd yna adegau pan fyddai yna fwy nag un cyfarfod ar yr un diwrnod. Roedd hyn weithiau yn ymwneud â gofynion statudol o ran pryd y dylid cynnal y cyfarfod neu â dibenion trwyddedu; byddai rhaid i hyn fod pan fyddai ceisiadau yn dod drwy'r drws. Lle roedd modd, byddai'r posibilrwydd o Aelodau'n cael mwy nag un cyfarfod yn cael ei osgoi ond, yn anffodus, dan yr amgylchiadau roedd hyn weithiau'n anochel.

Gofynnodd y Cadeirydd pryd y byddent yn symud yn ôl i'r Siambr ar gyfer cyfarfodydd wyneb-yn-wyneb.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol fod gwaith yn cael ei wneud ar hyn ar y pryd. Yn yr asesiad diwethaf, cyfrifwyd na allai'r Siambr gynnwys mwy na 12 unigolyn, sef y Swyddogion yr oedd eu hangen a dyrannu rhai seddau i Aelodau. Roedd y Tîm Gwasanaethau Democrataidd yn ymweld yn rhithiol â Chyngor Bro Morgannwg, gan fod ganddynt hwy system hybrid yn ei lle. Roedd angen sicrhau y gallai technoleg y Timau gysylltu â'r dechnoleg yn y Siambr, oherwydd, pe na baent yn cydweithio, y gallai fod llawer o eco ac adborth, a allai wneud y cyfarfod yn eithaf anodd ei redeg. Y gobaith oedd y gellid cynnal rhai cyfarfodydd hybrid yn yr Hydref.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnydd mewn salwch yn ymwneud â straen ers mis Ebrill a gofynnodd am i aelodau COSC gael derbyn diweddariadau misol i fonitro'r lefelau.

Cadarnhaodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Rheolaethol y câi'r wybodaeth ei rhoi gan Adnoddau Dynol i Graffu i'w chylchredeg i aelodau'r Pwyllgor ar gyfer monitro.

| | |
|---|---|
| <u>PENDERFYNWYD</u>: | Bod y Pwyllgor yn nodi Perfformiad Diwedd Blwyddyn y Cyngor a thargedau diwygiedig y Cynllun Corfforaethol i'w cynnwys fel atodiad i Gynllun Corfforaethol 2018-23 a ddiwygiwyd 2021-22. |

28. DIWEDDARIAD AR Y FLAENRAGLEN WAITH

Dywedodd yr Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Craffu y byddai'r Aelodau'n cofio, yn dilyn ystyried y flaenraglen waith ar gyfer y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf ar y $9^{\text{fed}}$ o Fehefin, bod y Flaenraglen Waith ar gyfer y pwyllgor hwn wedi ei hatodi fel Atodiad A a'r Flaenraglen Waith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc 1, 2,a 3 wedi eu hatodi fel atodiadau B, C a D ar gyfer cyd-drefnu a rhoi trosolwg ar y Flaenraglen Waith yn gyffredinol. Byddai Blaenraglenni Gwaith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ar Bwnc yn parhau i gael eu cynnwys yn yr adroddiad i COSC gydag unrhyw ddiweddariadau o bob rownd o gyfarfodydd y SOSC wedi eu cynnwys.

Dywedodd hefyd fod y daflen weithredu monitro'r argymhellion, oedd yn olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor o'r cyfarfod blaenorol, yn atodedig fel Atodiad E a chyfeiriodd at yr ymatebion a anfonwyd drwy'r e-bost i Aelodau'r Pwyllgor ar y $29^{\text{ain}}$ o Fehefin a'r $2^{\text{il}}$ o Orffennaf 2021.

Argymhellion:

Ar ôl ystyried y Flaenraglen Waith, gwnaeth y Pwyllgor yr argymhellion canlynol:

1. Bod Caffael Moesegol yn cael ei ychwanegu at y Flaenraglen Waith.

Nid oedd ceisiadau i gynnwys gwybodaeth benodol yn yr eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf.

PENDERFYNWYD: Bod y Pwyllgor wedi ystyried a chymeradwyo ei Flaenraglen Waith yn atodiad A, yn amodol ar yr uchod, wedi nodi'r Blaenraglenni Gwaith ar gyfer y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn dilyn ystyriaeth yn eu Cyfarfodydd Pwyllgor perthnasol ym mis Mehefin yn Atodiad B, C a D, ac wedi nodi'r Daflen Weithredu Monitro'r Argymhellion i olrhain ymatebion i argymhellion y Pwyllgor a wnaed yn y cyfarfodydd blaenorol yn Atodiad E.

29. URGENT ITEMS

Dim

Daeth y cyfarfod i ben am 11:00